



DEWISWCH YRFA GYDA



GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

Mae llawer mwy yn digwydd yng Ngrŵp Colegau NPTC nag a welir ar y wyneb!

Yn ogystal â'r addysg a'r holl gyfleoedd i wella sgiliau yr ydym yn eu darparu, rydym hefyd yn un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phowys - ac nid staff addysgu yn unig yr ydym yn eu cyflogi.

Mae gennym wyth campws sy'n cwmpasu traean o dirfaes Cymru. Lleolir ein safleoedd mwyaf yng Nghastell-nedd, Port Talbot, y Drenewydd ac Aberhonddu. Rydym yn cyflogi tua 900 aelod o staff ac mae cyfleoedd gyrfa ardderchog ar gael ar draws y sefydliad ar gyfer y bobl iawn. Mae'r rhain yn cynnwys y meysydd canlynol:

- **Gwasanaethau Gwybodaeth a Rheoli**
- **Gwasanaethau TG**
- **Cyfrifyddu a Chyllid**
- **Adnoddau Dynol.**
- **Marchnata a Chyfathrebu**
- **Cyfleusterau ac Ystadau**
- **Gwasanaethau Myfyrwyr**
- **Datblygu Busnes**

Wrth gwrs ni allwn addo y bydd gennym y swydd berffaith honno yr ydych yn chwilio amdani ond efallai y bydd modd inni gynnig lleoliad gwaith neu interniaeth i chi.

Ewch i'n tudalen swyddi gwag am wybodaeth am yr holl swyddi gwag diweddaraf yng Ngrŵp Colegau NPTC:

**[www.nptcgroup.ac.uk/
about-us/job-vacancies](http://www.nptcgroup.ac.uk/about-us/job-vacancies)**

A dyma'r rhesymau eraill pam y dylech ystyried datblygu eich gyrfa yng Ngrŵp Colegau NPTC.

Mae'r manteision yn cynnwys:

- **Cyflog cystadleuol**
- **Gwyliau blynyddol hael**
- **Cyfleoedd Datblygu Staff**
- **Aelodaeth Campfa â Chymhorthdal – (ardal Castell-nedd Port Talbot)**
- **Meithrinfa ddydd – Castell-nedd**
- **Trin gwallt a Therapiau Cymhwysol – disgownt ar gyfer staff**
- **Caffi a bwytai**
- **Adnoddau dysgu**
- **Planhigfa**
- **Parcio am ddim ar y safle**
- **Gweithio hyblyg**
- **Gwasanaethau Cymorth i Staff**
- **Talebau Gofal Plant**
- **Talebau Gofal Llygaid.**

Mae Grŵp Colegau NPTC yn lle gwych i weithio ynddo hefyd ond peidiwch â derbyn ein gair ni yn unig.



Ychydig a wyddai James Llewellyn pan ddechreuodd ar ei astudiaethau yng Ngrŵp Colegau NPTC tua 13 mlynedd yn ôl, mai megis cychwyn oedd ar ei daith gyda'r sefydliad.

Dechreuodd ei yrfa mewn peirianeg wrth iddo ymrestru ar raglen Perfformio Gweithrediadau Peirianeg Iefel 2 mewn Peirianeg Fecanyddol yn y Coleg yn 2005.

Ar ôl i James ennill ei gymwysterau, llwyddodd i gael rôl fel prentis dechnegydd mewn peirianeg yn y sefydliad ac mae wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

Mae'r Coleg yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau ac ennill cymwysterau defnyddiol fel rhan o'i raglenni datblygu staff, ac wrth sylwi ar y manteision, aeth James fel lluo o weithwyr eraill ati i wneud y gorau o'r cyfleoedd a oedd ar gael i'w helpu i symud ymlaen drwy'r sefydliad a datblygu ei sgiliau proffesiynol.

Mae wedi symud yn ei flaen yn gyson ym maes peirianeg, gan gamu ymlaen i addysgu ac i reoli erbyn hyn.

"Dwi wrth fy modd yn gwneud yr hyn yr ydw i'n ei wneud, a dwi'n ddiolchgar iawn i'r Coleg am fy helpu i gyrraedd fan hyn heddiw. Dwi'n hoff iawn o fy nghrefft, a dwi'n deall bod gennyf safbwynt unigryw o fod yn fyfyrwr, prentis, technegydd, hyfforddwr, darlithydd a rheolwr bellach. Dwi bob amser wedi cael rhwydweithiau cymorth cryf, boed yn fentoriaid, cydweithwyr neu reolwyr ac mae gen i ddyheadau i barhau gyda fy natblygiad proffesiynol o fewn y Coleg a chyfrannu hyd orau fy ngallu bob tro y gallaf," ychwanegodd.

Ymunodd Stephanie â'r coleg yn 2003 fel derbynnydd rhan-amser gyda'r nos. Roedd hon yn rôl ran-amser a oedd yn cyd-fynd yn berffaith â'i hastudiaethau Gradd Anrhydedd BA mewn Saesneg a Chymdeithaseg ym Mhrifysgol Abertawe. Ar ôl iddi radio yn 2005, penderfynodd aros yn y coleg. Llwyddodd il ennill swydd dan hyfforddiant fel Swyddog AD. Cafodd gyfle wrth wneud y swydd hon i ennill cymhwyster proffesiynol ar yr un pryd â chael profiad gwaith. Ar ôl iddi ddod yn Aelod Cyswllt o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, llwyddodd i gael swydd fel Uwch Swyddog yn yr Adran AD ac yn fwyaf diweddar fe'i penodwyd yn Rheolwr Cynorthwyol AD.

"Mae lluo o gyfleoedd yng Ngrŵp Colegau NPTC i ennill sgiliau a chymwysterau ychwanegol ym mhob maes. Dim ond un o'r nifer fawr o staff sydd wedi symud ymlaen o ganlyniad i'r cyfleoedd datblygu ydw i. Mae'n lle wirioneddol wych i weithio ynddo."



GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

#DewisGyrfa



www.nptcgroup.ac.uk